**PWYLLGOR CYNLLUNIO Ebrill 28ain 2025**

**Presenoldeb**
Cadeirydd: Cyng. Elwyn Edwards
Is-gadeirydd: Cyng. Huw Rowlands

**Cynghorwyr**

Delyth Lloyd Griffiths, Louise Hughes, Elin Hywel, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Gareth T Jones, Cai Larsen, Edgar Owen, Gareth Coj Parry, Gareth A Roberts, a Gruffydd Williams.

**Swyddogion:**
Gareth Jones (Pennaeth Cynllunio ac Amgylchedd), Keira Sweenie (Rheolwr Cynllunio), Gwawr Hughes (Arweinydd Tîm Rheolaeth Datblygu), Glyn Llywelyn (Uwch Swyddog Cynllunio), Robyn Jones (Swyddog Monitro) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Eraill a wahoddwyd:**
Cynghorwyr: Beca Roberts, Gareth Williams a Meryl Roberts (Aelodau Lleol)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

a) Y Cynghorydd Huw Rowlands (oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.4 C23/0883/43/LL ar y rhaglen, oherwydd ei fod yn Glerc Cyngor Cymuned Y Bontnewydd, a'r Cyngor Cymuned wedi cynnig sylwadau ar y cais.

b) Datganodd yr Aelod canlynol ei bod yn aelod lleol mewn perthynas â'r eitemau a nodir:
- Y Cynghorydd Beca Roberts (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.1 cais rhif C18/0767/16/LL ar y rhaglen
- Y Cynghorydd John Pughe Roberts (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.3 cais rhif C24/0072/02/LL ar y rhaglen
- Y Cynghorydd Gareth Williams (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.5 cais rhif C22/0637/32/LL ar y rhaglen
- Y Cynghorydd Meryl Roberts (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.7 cais rhif C24/1026/08/LL ar y rhaglen

c) Datganodd yr holl Aelodau eu bod wedi derbyn llythyr yn ymwneud a chais rhif C24/0072/02/LL ar y rhaglen (eitem 5.3)

**3. MATERION BRYS**

Fel mater o drefn, adroddwyd, gyda'r Cadeirydd yn ymuno yn rhithiol, mai'r Pennaeth Cynorthwyol fyddai'n cyhoeddi canlyniadau'r pleidleisiau ar y ceisiadau.

**4. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 24ain o Fawrth 2025 fel rhai cywir

**5. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu. Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

**5.1 CAIS RHIF CAIS RHIF C18/0767/16/LL**
**Tir yn Coed Wern, Glasinfryn, Bangor LL57 4BE**

**Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:-**

- **Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig.**
- **Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio.**
- **Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dŵr aflan.**
- **Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol.**
- **Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb *e-beicio* gyda pwyntiau gwefru trydan.**

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr oedd yn cyfeirio at ddogfennau diwygiedig oedd wedi ei cyflwyno ers paratoi'r adroddiad, yn adlewyrchu lleihau'r nifer o podiau a dileu datblygiad o fewn parth a adnabyddir fel parth 5. Ategwyd nad oedd hyn yn newid asesiad nac argymhelliad y cais. Roedd y sylwadau hwyr hefyd yn nodi amod tirlunio, ac amodau i gytuno cynllun adeiladau a gwarchod coed a chynllun rheoli ecolegol a phlannu.

a) Amlygodd Arweinydd Tîm Rheolaeth Datblygu mai cais llawn oedd dan sylw ar gyfer darparu llety gwyliau a gwaith cysylltiedig o fewn coedlan bresennol i'r de-ddwyrain o bentref Glasinfryn. Mynegwyd, ers cyflwyno'r cais yn wreiddiol yn 2018, bod y datblygiad wedi ei ddiwygio a'i leihau nifer o weithiau a bellach y nifer o unedau wedi eu lleihau i 25 caban gwyliau a 4 pod glampio.

Nodwyd bod y goedlan, sy'n ffurfio'r ffin gyda'r ffordd Dosbarth III tuag at Glasinfryn, yn destun Gorchymyn Gwarchod Coed gyda gweddill y safle yn Safle Bywyd Gwyllt ymgeisiol.

Cyfeiriwyd at polisi TWR 3 sy'n caniatáu cynigion i ddatblygu safleoedd carafannau neu siale sefydlog newydd, neu lety gwersylla amgen parhaol y tu allan i Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig, yn ddarostyngedig i feini prawf perthnasol.

Adroddwyd bod y maen prawf cyntaf yn cyfeirio'n benodol at ormodedd o ddatblygiadau newydd, ac 'Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd yn Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri' er mwyn diffinio gormodedd ar gyfer y safle yma. Ategwyd bod yr Astudiaeth yn nodi fod rhywfaint o gapasiti ar gyfer datblygiadau bach i bach iawn y tu allan i'r safleoedd sy'n cyfrannu tuag at osodiad Parc Cenedlaethol Eryri o fewn yr Ardal Cymeriad Tirwedd penodol yma, gyda'r Astudiaeth yn diffinio datblygiadau 'bach iawn' fel rhai hyd at 10 uned a datblygiadau 'bach' fel rhwng 10 - 25 uned. Er bod nifer unedau sy'n destun y cais yma yn 29 a gan gydnabod bod y ffigwr yma yn uwch na'r hyn a ddiffinnir fel datblygiad

bychan yn yr Astudiaeth, rhoddwyd ystyriaeth i gapasiti ardaloedd ar gyfartaledd yn hytrach na lleoliadau unigol, ac ystyriaeth i'r safle fel un cuddiedig. I'r perwyl hyn, ystyriwyd bod capasiti digonol i'r safle yn yr ardal benodol yma, a gan ei fod yn safle anymwthiol sydd eisoes wedi ei sgrinio'n dda roedd hefyd yn cydymffurfio gyda'r ail faen prawf.

Yng nghyd-destun y maen prawf sy'n cyfeirio at ddarparu mynediad digonol heb amharu'n sylweddol ar nodweddion a chymeriad y dirwedd, ynghyd a sicrhau fod y safle yn agos at brif rwydwaith ffyrdd, nodwyd bod mynedfa i'r safle yn bodoli'n bresennol gyda bwriad i'w wella a darparu llain weledledd i foddhad yr Uned Drafnidiaeth yn ogystal â gwarchod y gwrych sydd yn destun Gorchymyn Gwarchod Coed.

Cyfeiriwyd at gynnwys yr asesiad manwl ar effaith ar fwynderau trigolion cyfagos, ond yn y pen draw ac ar sail y pellter a natur guddiedig y safle, ni ystyriwyd y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol sylweddol ar drigolion cyfagos. Cadarnhawyd hefyd bod trafodaeth sylweddol wedi bod ynglŷn â phryderon ac effaith ar goed a bioamrywiaeth, a bod nifer o asesiadau ac arolygon wedi eu cyflwyno ynghyd ag ymrwymiad i ddarparu cynllun i reoli'r safle a fyddai yn cynnwys gwelliannau. Ystyriwyd bod yr arolygon a gyflwynwyd yn cyfleu sefyllfa bresennol y safle ac yn amlygu'r angen i reoli'r goedlan er mwyn sicrhau dyfodol y cynefin a'i fioamrywiaeth o'i fewn. Adroddwyd nad oedd y safle wedi ei ddynodi fel safle o bwysigrwydd Cenedlaethol. Cydnabuwyd ei fod yn safle bywyd gwyllt ymgeisiol, ond ystyriwyd fod yr ymgeisydd wedi mynd i'r afael ag anghenion y safle ac o ganlyniad bydd y datblygiad yn cael ei reoli a'i wella yn ddarostyngedig i amodau cynllunio. Ystyriwyd felly fod y bwriad yn dderbyniol yng nghyd-destun effaith ar fwynderau a hynny yn ddarostyngedig i amodau priodol fyddai'n sicrhau mesurau rheoli, lliniaru a gwella priodol.

Cyfeiriwyd at faterion cynaliadwyedd, llifogydd, isadeiledd ac ieithyddol gan nodi eu bod wedi derbyn sylw priodol a'r bwriad yn dderbyniol o ran y materion hynny.

Roedd y swyddogion yn argymell caniatáu y cais gydag amodau.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:
- Mai datblygiad bach oedd yma o safon uchel yn darparu cyflenwad o lety gwyliau
- Bod y safle wedi ei ystyried yn ddelfrydol ar gyfer y weledigaeth o ddarparu gwyliau pwrpasol i ymwelwyr fwynhau'r ardal a defnyddio'r rhwydwaith beicio leol
- Bod £2 filiwn o fuddsoddiad i'r cabanau sydd wedi eu hadeiladu gan gyflenwyr lleol
- Mai'r unig adnodd ar y safle fydd llogi beics
- Bod Siop Fferm o fewn cerdded i'r safle
- Bod y safle yn un gwledig ac wedi ei sgrinio yn dda
- Bod CNC wedi cadarnhau nad yw'r coed yn rhai hynafol – yr holl goed sydd yn destun gorchymyn yn cael eu cadw, ond bydd angen teneuo ychydig o'r goedlan
- Ei fod yn croesawu argymhelliad y swyddogion
- Bod y bwriad yn cydymffurfio gyda pholisïau perthnasol
- Nad oedd gwrthwynebiadau wedi eu derbyn gan yr ymgynghorwyr statudol

c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd gwrthwynebydd i'r cais y sylwadau canlynol:
- Byddai caniatáu y cais yn hyrwyddo a chreu cwmni annibynnol
- Nad yw'r bwriad yn cefnogi'r economi leol na chyflogi yn lleol (oni bai am gyflogai rhad)
- Bod y datganiad iaith a gyflwynwyd yn un gwan
- Cynyddu niferoedd llety gwyliau yn yr ardal yn cael effaith ar y gymuned leol
- Dim bwriad o gydweithio na 'chyd-fyw' – hyn yn gatalydd i Saesnegeiddio yr ardal

- Bod y galw yn ‘ddi ben draw’ – dim modd ei ddiwallu
- Bod Cymru yn wlad o gymunedau yn marw
- Eisoes wedi cymryd drosodd glannau’r môr, bellach yn treiddio i gefn gwlad
- Byddai caniatáu yn gosod cynsail
- Annog i’r Pwyllgor wrthod y cais gan ei fod yn or-ddatblygiad – yn groes i bolisïau SO1 pwynt 5.4 a 5.5 a PS1

d) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol:
- Ei bod yn cynnig i’r Aelodau ymweld â’r safle neu wrthod y cais ar y sail ei fod yn or-ddatblygiad
- Ei bod yn rhannu pryderon ei hetholwyr
- Bod yr adroddiad yn nodi ‘dim carafanau statig yn yr ardal’ - hyn yn anghywir: o fewn 3km i’r safle ceir nifer o safleoedd carafanau / llety gwyliau
- Bod y cais yn adlewyrchu rhwydwaith dda o gysylltiadau bws; hyn eto yn anghywir gan nad oes arhosfa bws yn Llys y Gwynt - yr arhosfa agosaf 2km o’r gwersyll arfaethedig. Felly, dim cysylltiadau bws.
- Dwy swydd yn unig fydd yn cael eu creu - incwm cyfyngedig i’r ardal. Y cwmni gyda phencadlys ym Manceinion
- Er yn nodi budd yn lleol, bod y pecyn croeso sydd yn cael ei adael i ymwelwyr yn annog iddynt siopa ar-lein fydd yn lleihau'r angen iddynt deithio oddi ar y safle; Cwmnïau mawr fydd yn elwa o hyn ac nid siopau lleol.
- Bod y safle arfaethedig gerllaw tir coediog yn cynnig sgrin naturiol i ffordd brysur a pheryglus. Byddai torri'r coed yn gwaredu’r amddiffynfa naturiol yma a chreu effaith ar drigolion lleol.
- Bod y cais wedi ei selio ar wybodaeth anghywir
- Yn echdynnu elw drwy greu safle di angen bydd yn niweidiol i’r gymuned leol
- Yn annog ymweliad safle

e) Cynigiwyd ac eiliwyd cynnal ymweliad safle

**PENDERFYNIAD: Cynnal ymweliad safle**

**5.2 Cais Rhif C25/0046/20/LL**
**Ffordd Glyder, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QX**

**Newid defnydd o Prif Gartref (C3) i Ddefnydd Cymysg- Ail Gartref (5) a Llety Gwyliau tymor byr (C6)**

**YR YMGEISYDD WEDI TYNNU Y CAIS YN ÔL**

**5.3 Cais Rhif C24/0072/02/LL**
**Tir Ger Pandy, Corris, SY20 9RJ**

**Cynllun arallgyfeirio fferm ar gyfer gosod 5 uned llety gwyliau ar y tir**

a) Amlygodd Arweinydd Tîm Rheolaeth Datblygu mai cais ydoedd ar gyfer newid defnydd tir a datblygu llety gwyliau newydd ar ffurf 5 pod glampio parhaol, parcio cysylltiedig, addasiadau i’r fynedfa, draenio a thirlunio. Eglurwyd, wrth ymdrin a’r cais bod y bwriad wedi ei ddiwygio gan leihau maint y safle a’r nifer podiau wedi lleihau o 6 i 5; bod y safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad ac o fewn Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) gydag un eiddo preswyl yn ffinio gyda’r

safle ac adeilad allanol nad yw ym mherchnogaeth yr ymgeisydd i'r dwyrain o'r fynedfa bresennol.

O ystyried y math o bodiau a lleoliad y cais o fewn ATA, amlygwyd bod pwynt 1 Polisi TWR 3 yn cadarnhau y gwrthodir cynigion i ddatblygu safleoedd carafanau sefydlog newydd, safleoedd sialé gwyliau newydd neu lety gwersylla amgen parhaol o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Môn neu Llyn ac yn yr ATA; y bwriad felly yn sylfaenol groes i bwynt 1 o bolisi TWR 3 a pholisi PCYFF 1 gan y byddai'n sefydlu safle gwersylla amgen parhaol newydd oddi fewn i'r ATA.

Yng nghyd-destun materion cyffredinol a phreswyl, eglurwyd bod y tŷ annedd agosaf i'r safle wedi ei leoli ar waelod y trac a fyddai'n cael ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr yr unedau gwyliau arfaethedig ac fwy na heb yn ffinio gyda ffin ddeheuol safle'r cais. Yn bresennol caeau amaethyddol a'r afon sydd o amgylch y tŷ annedd yma ac mae mewn lleoliad gymharol breifat, llonydd a tawel lle nad oes llawer o weithgareddau ac aflonyddwch i ddeiliaid yr eiddo. Byddai cyflwyno safle gwersylla amgen yn y lleoliad hwn gyda photensial o achosi effaith andwyol annerbyniol ar yr eiddo cyfagos oherwydd mwy o weithgaredd, sŵn ac aflonyddwch gan ymwelwyr. Ategwyd bod natur defnydd gwyliau yn golygu symudiadau gwahanol i unedau preswyl parhaol, ac nid yw'r ymgeisydd yn byw ar y safle o ran gallu goruchwylio a rheoli'r safle ac ymateb i unrhyw faterion neu broblemau allai godi ar y pryd. Ystyriwyd fod y bwriad felly yn groes i ofynion maen prawf 7 o Bolisi PCYFF 2 ar sail effaith ar mwynderau'r cymdogion.

Tynnwyd sylw at faterion priffyrdd, bioamrywiaeth, archeolegol, cynaliadwyedd, llifogydd, draenio a ieithyddol oedd wedi derbyn sylw priodol ac ystyriwyd fod y bwriad yn dderbyniol o ran hynny, ond pwysleisiwyd nad oedd hynny yn goresgyn gwrthwynebiad sylfaenol i'r bwriad ar sail y byddai sefydlu safle gwersylla amgen parhaol newydd oddi fewn i'r ATA yn gwbl groes i bolisi.

Roedd y swyddogion yn argymell gwrthod y cais

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:
- Bod y bwriad yn un i geisio ailgyfeirio'r fferm
- Yn un o dair merch o deulu Cymraeg, trydedd genhedlaeth ar y fferm gyda dymuniad o aros a chreu teulu yng Nghorris
- Y fferm fach yn un 300 erw ac angen ailgyfeirio a sefydlu menter newydd ac incwm ychwanegol i sicrhau dyfodol i'r fferm. Ffermio erbyn hyn yn anodd gyda rheolau a newidiadau cyson
- ATA yn ddosbarthiad o dir sydd wedi ei adael allan o Parc Cenedlaethol Eryri, ond yn ddiweddar, wedi ei ddynodi fel ardal i beidio ei ddatblygu
- Bod holl dir y fferm wedi ei leoli o fewn ATA a dim dewid ond ailgyfeirio
- PYCFF 2: Aflonyddwch i gymdogion – un eiddo cyfagos ac felly wedi symud yr unedau 70 m i ffwrdd o'r eiddo hwnnw
- Yn ogystal â lleihau niferoedd unedau, ni fu cyswllt gan y Swyddogion ynglŷn â phellter addas derbyniol. 70m gyda sgrinio rhag llygredd sŵn a golau yn fwy na derbyniol - dyma ofynion llety preswyl
- Y bwriad yn cael ei gefnogi gan nifer o bolisïau cenedlaethol ac yn cydymffurfio gyda mwyafrif o bolisïau Cynllun Datblygu Lleol
- Bod cyfarfod Cyngor Cymuned wedi ei gynnal gyda nifer o bobl leol o blaid y datblygiad a neb yn gwrthwynebu, ond ers hynny wedi darganfod sawl

gwrthwynebiad wedi eu derbyn gan bobl sydd wedi symud i mewn i'r ardal sy'n berchnogion ail gartref neu AirB&B sydd ddim eisiau cystadleuaeth

- Gorboblogaeth yng Nghorris o AirB&B. Byddai creu unedau gwyliau pwrpasol yn lleihau galw am ddefnydd tai lleol fel unedau gwyliau fydd yn unol ag Erthygl 4 yn rhyddhau cartrefi i brynwyr cyntaf lleol.
- Byddai'r fenter yn dod a budd i bentref Corris – y pentref a busnesau lleol
- Bod y bwriad yn cyfateb a gofynion polisïau sydd yn ymwneud ag edrychiad a gosodiad o fewn y dirwedd ac wedi ei ddylunio i lefel uchel. Dyma'r safle gorau ar y fferm gan ei fod â chysylltiadau da i lwybrau cyhoeddus
- Yn annog cefnogaeth y Pwyllgor i ailgyfeirio'r busnes i deulu lleol gael aros yn lleol angen a chreu dyfodol i'r fferm

c) Yn manteisio ar yr hawl ar yr hawl i siarad, nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol;

- Bod Parc Eryri yn gefnogol i Dwristiaeth gynaliadwy i ffermydd cefn gwlad
- Bod angen mwy o arweiniad i asesiadau cychwynnol i sicrhau hyfywdra'r cynllun
- Bod swyddogion yn barod i ganiatáu cais am 25 caban gwyliau heb gefnogaeth, ond yn gwrthod cais am 5 caban gyda chefnogaeth leol
- Byddai ailgyfeirio yn sicrhau dyfodol a sicrwydd i'r teulu
- Byddai'r cabanau yn toddi i mewn i'r tirlun; yn cysgu dau berson. Wedi eu gosod 70m i ffwrdd o'r eiddo cyfagos, wedi ei sgrinio yn dda ac yn anweladwy
- Bod bwriad plannu coed fyddai yn gwella bioamrywiaeth a rhywogaethau
- Bod y Cyngor Cymuned a phobl leol yn gefnogol ac er yr ychydig sydd wedi gwrthwynebu, nid ydynt yn byw yn lleol. Nifer wedi amlygu cefnogaeth i'r cais
- Byddai bwriad defnyddio enwau caeau'r fferm ar y podiau – yn croesawu hyn
- Byddai'r bwriad yn cefnogi busnesau lleol; llwybrau uniongyrchol o'r safle i'r pentref; yn fudd i'r pentref ac i fusnesau'r ardal; dim yn ymyrryd gyda phroblemau parcio'r pentref
- Yn gyswllt da i lwybrau cerdded yr ardal a llwybr beicio Dyfi
- Nid oes gormodedd llety gwyliau yn yr ardal – dim podiau glampio o fewn 10m i'r safle
- Bod Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 yn cefnogi arallgyfeirio i ffermwyr i greu economi wledig gryfach
- Uned bioamrywiaeth yn ymateb bod yr adroddiad ystlumod o safon dda
- Sail y gwrthodiad yw ei safle o fewn ATA. Beth yn union yw dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig? Corris ddim o fewn y Parc Cenedlaethol oherwydd ei fod yn rhy ddiwydiannol, ond yn fwy diweddar wedi ei ddynodi fel ATA.
- Effaith andwyol ar eiddo meddiannwr cyfagos - 70m i ffwrdd o'r eiddo, bydd coed wedi eu plannu bydd wedi ei sgrinio yn dda ac yn anweladwy
- Yn annog y pwyllgor i gefnogi'r cais - angen teulu ifanc, lleol i amaethu yn yr ardal. Gormod o bobl ifanc yn gadael y Sir oherwydd diffyg cyfleoedd.

ch) Cynigwyd ac eiliwyd cynnal ymweliad safle i gyfiawnhau'r effaith ar fwynderau preswyl cyfagos

d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod angen adolygu polisïau iddynt weithio yn well i gefnogi cymunedau'r Sir - angen hyblygrwydd yn y broses (o gymharu ceisiadau 5.1. a 5.3 sydd yn gwahaniaethu rhwng yr angen lleol)

- A oedd cyswllt gyda'r tirfeddiannwr cyn rhoi dynodiad ATA i'r ardal? A oedd ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda'r gymuned cyn ei ddynodi fel ATA? Beth yw ystyr y statws yma yn y lleoliad yma?
- Polisi AMC 2 yn amlygu 'cynnig o fewn yr ATA, bod ystyriaeth priodol i raddfa a natur y datblygiad gan sicrhau na fydd yn cael effaith andwyol ...' onid ydy AMC 2 yn rhoi disgresiwn ychwanegol wrth ystyried Polisi TWR 3?

Mewn ymateb i gwestiwn, a yw podiau, wrth ystyried materion cynllunio yn cyfateb i garafanau symudol, nodwyd bod Polisi TWR 2 a 3 yn gwahaniaethu rhwng carafanau symudol a parhaol. Yn y cyd-destun yma, amlygwyd bod y podiau yn cael eu cysylltu yn ffisegol i'r ddaear gyda gwasanaethau dwr a thrydan ac felly yn cael eu hystyried fel rhai parhaol. Mewn ymateb i gwestiwn ategol a fyddai modd tynnu'r podiau i lawr dros fisoedd y gaeaf, ac o bosib hyn yn dderbyniol, nodwyd nad hynny oedd gofynion y cais a gyflwynwyd, ond ni fyddai Polisi TWR 2 yn rhwystro datblygiadau o fewn tirwedd ATA.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a'r ystyriaethau cynllunio, nodwyd na ddylid ystyried pwy sydd yn gwneud y cais a bod pob cais yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun ac o fewn polisïau lleol a chenedlaethol. Pwysleisiwyd, er y gallu i fod yn hyblyg gan bwyso a mesur rhai penderfyniadau cynllunio, byddai'n sefydlu safle gwersylla amgen parhaol newydd oddi fewn i'r ATA yn hollol groes i bolisi TWR 3.

O ran statws yr ATA yn Corris, byddai ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal yn ystod ymgynghoriad y CDLl pryd aseswyd y dirwedd o ran capasiti i dderbyn llety twristiaeth barhaol gan hefyd adnabod ardaloedd sensitif. Canlyniad yr asesiad hwnnw oedd bod ansawdd y dirwedd wedi ei adnabod fel ATA a bod yr ardal yma, fel ardaloedd AHNE, gyda gormodedd o garafanau a llety parhaol ac felly polisi wedi ei lunio i warchod sensitifrwydd yr ardaloedd hynny.

**PENDERFYNWYD: Cynnal Ymweliad Safle**

**5.4 Cais Rhif C24/0297/19/LL**
**Hen Safle Gwaith Brics, Ffordd Felin Seiont, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2YL**

**Cais am ardal ailgylchu deunyddiau ar gyfer gwastraff adeiladu, dymchwel a phriddoedd, codi adeilad peiriannau ailgylchu, offer paratoi concrid parod, creu mynediad cerbydol newydd a llwybrau cludo mewnol, creu ardaloedd storio dŵr llifogydd, newid defnydd tir yn ôl-weithredol ar gyfer storio cyffredinol (Dosbarth Defnydd B8) sy'n cynnwys prosesu, llifio a phacio deunydd mwynau a chadw adeilad gweithdy, cabanau a pharcio cysylltiedig**

a) Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr oedd yn nodi bod gohebiaeth gan yr asiant wedi ei dderbyn ar y 24.04.2025 yn cadarnhau bwriad i gyflwyno rhagor o wybodaeth oedd yn berthnasol i'r cais.

Amlygwyd y byddai'r swyddogion angen amser i asesu'r wybodaeth a diwygio'r adroddiad. Yn sgil hynny, awgrymwyd bod y Pwyllgor yn gohirio trafodaeth o'r cais.

b) Cynigiwyd ac eiliwyd gohirio'r drafodaeth

**PENDERFYNWYD: GOHIRIO ER MWYN I'R SWYDDOGION GAEL CYFLE I YMATEB I WYBODAETH YCHWANEGOL A DDERBYNIWYD GAN YR YMGEISYDD**

**5.5 Cais Rhif C22/0637/32/LL**
**Tir Ger Stad Congl Meinciau, Botwnnog, Pwllheli, LL53 8RA**

**Cais llawn ar gyfer datblygiad yn cynnwys 8 tŷ fforddiadwy ynghyd a gwaith cysylltiol ar safle eithrio gwledig (cam 1 o 2)**

a) Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais wedi ei gyflwyno yn flaenorol ond bod penderfyniad wedi ei wneud i'w ohirio ar y pryd fel bod yr ymgeisydd yn cael cyfle i ymateb i'r rhesymau gwrthod a chyflwyno rhagor o wybodaeth.

Nodwyd bod y cais yn un llawn i godi 8 tŷ fforddiadwy unllawr ynghyd a gwaith cysylltiol ar safle eithrio gwledig, tu allan i ffin ddatblygu gyfredol pentref Botwnnog. Bydd y cynnig yn golygu codi'r tai a darparu mynedfa trwy ymestyn y ffordd bresennol trwy stad Congl Meinciau ac yna trwy stribyn o dir gwag at leoliad y tai newydd. Mi fyddai llecyn parcio i'w ddarparu i flaen y tai unigol. Eglurwyd bod gwybodaeth ddiweddar a gyflwynwyd yn nodi cymysgedd o ran y math a maint y tai i'w darparu, ond nad oedd hyn wedi cael ei gyfleu yn y cynlluniau a gyflwynwyd ac nad oedd y cynlluniau wedi eu newid o'r hyn a gyflwynwyd yn wreiddiol. Ategwyd nad oedd y cynlluniau arfaethedig yn cynnwys unrhyw wybodaeth o ran trefn a gosodiad gerddi neu ofod unigol y tai nac unrhyw gyfeiriad at dirlunio ffurfiol.

Adroddwyd bod safle'r cais, yn bresennol yn dir gwag sydd wedi gôr dyfu gyda olion gwaith clirio o'r gorffennol. Ategwyd bod y tir a'r ardal gyfagos o fewn dynodiad Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Ynys Enlli ac o fewn Ardal Tirwedd Arbennig Gorllewin Llŷn. Tynnwyd sylw at ddarn o dir sydd yn mesur oddeutu 30 troedfedd o lêd rhwng ffin stad bresennol Congl Meinciau a dechrau ffin y stad newydd sydd ym mherchnogaeth rhywun arall ac felly yn fater sifil i'w ddatrys; bydd angen caniatâd y perchennog tir yma i greu mynediad tuag at y tai newydd ynghyd a'r angen am ganiatâd cynllunio ffurfiol ar wahân ar gyfer creu ffordd stad newydd.

Roedd y swyddogion yn parhau i argymell gwrthod y cais ar sail nad oedd y wybodaeth a dderbyniwyd yn ddigonol ac er derbyn cais gan yr ymgeisydd am estyniad amser i gyflwyno mwy o wybodaeth, ystyriwyd bod cyfle ac amser digonol eisoes wedi ei roi. Er derbyn bod gwybodaeth wedi dod i law, roedd y wybodaeth yn arwynebol heb dystiolaeth i'w gefnogi ac felly nid oedd modd asesu'r cynllun yn llawn. Ni dderbyniwyd tystiolaeth asesiad marchnata, tystiolaeth cymysgedd a phrisiad; ni dderbyniwyd tystiolaeth am gyfiawnhad y bwriad ac nid oedd yr angen wedi ei brofi; er derbyn asesiad effaith roedd y wybodaeth eto yn arwynebol heb dystiolaeth o'r sefyllfa leol; ni dderbyniwyd asesiad bioamrywiaeth na manylion trafnidiaeth a mynediad. Nid oedd gofynion sylfaenol cyflwyno cais wedi eu cyflawni.

b) Yn manteisio ar yr hawl ar yr hawl i siarad, nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol;

- Yn annog y Pwyllgor i ganiatáu gohiriad am fis arall
- Bod yr ymgeisydd yn gweithio yn galed i geisio cael gwybodaeth ychwanegol
- Byddai cynnal ymweliad safle yn fuddiol

c) Cynigwyd ac eiliwyd gwrthod y cais

**PENDERFYNWYD GWRTHOD Y CAIS**

**Rhesymau:**

1. **Mi fyddai'r datblygiad hwn yn creu ymlediad trefol i safle tir glas yng nghefn gwlad agored ac nid yw'n yn union gerllaw'r ffin datblygu. Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn ychwanegu at neu wella cymeriad ac ymddangosiad y safle nac yn integreiddio gyda'r hyn sydd o'i gwmpas ac felly nid yw'n estyniad rhesymegol i'r anheddle. Mae'r cais felly'n groes i ofynion Polisïau PCYFF 1, PCYFF 3, PS 5 a TAI 16 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ynghyd a rhan 2.6 o Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio sydd yn nodi na ddylai dylunio sy'n amhriodol yn ei gyd-destun, neu nad yw'n manteisio ar gyfleoedd i wella cymeriad, ansawdd a swyddogaeth ardal, gael ei dderbyn oherwydd bydd yn cael effaith niweidiol ar gymunedau sy'n bodoli'n barod.**

2. **Nid oes gwybodaeth a thystiolaeth ddigonol wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i asesu'r holl ystyriaethau cynllunio materol angenrheidiol yn llawn. Yn ogystal, mae gwybodaeth anghyson a chamarweiniol yn y dogfennau a gyflwynwyd ynglŷn â'r math a maint o unedau a ddatblygir o'r hyn a ddangosir ar y cynlluniau manwl. Er mwyn galluogi asesiad cyflawn o'r cynnig dan bolisïau perthnasol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026, byddai angen cyflwyno rhagor o wybodaeth ynghylch y materion isod:**

   **i. Tystiolaeth ar ffurf asesiad marchnad tai ffurfiol i brofi'r angen am dŷ fforddiadwy (Polisi TAI 16)**

   **ii. Tystiolaeth am addasrwydd y gymysgedd o dai a phrisiad o werth yr unedau (Polisïau TAI 8 a TAI 15).**

3. **Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei argyhoeddi na fyddai'r datblygiad yn achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd yr iaith Gymraeg yn y gymuned ac felly mae'r cais yn groes i ofynion polisi PS1 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yn ogystal â gofynion perthnasol CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy.**

4. **Nid oes gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i asesu'r effaith y bwriad ar fioamrywiaeth leol yn llawn. O ganlyniad credir fod y bwriad yn annerbyniol ac yn methu bodloni gofynion perthnasol polisïau PS 19 ac AMG 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ynghyd a Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru.**

5. **Nid oes manylion trefniadau mynediad digonol wedi eu cynnwys fel rhan o'r cais ac felly ni chredir bod y cynnig yn cwrdd gyda'r gofynion perthnasol o safbwynt cydymffurfiaeth gyda meini prawf perthnasol polisïau TRA 4 a PCYFF 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn sydd yn nodi'r angen i sicrhau fod datblygiadau newydd yn darparu mynedfa dderbyniol.**

**5.6 Cais Rhif C24/1100/15/LL**
**Compton House, Stryd Fawr, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4EU**

**Newid defnydd 5 fflat preswyl (C3) i 5 uned llety gwyliau tymor byr (C6)**

**YR YMGEISYDD WEDI TYNNU Y CAIS YN ÔL**

**5.7 Cais Rhif C24/1026/08/LL**
**Hen Gaeau Chwarae Cookes, Ffordd Yr Orsaf , Penrhyndeudraeth, LL48 6LT**

**Cais ar gyfer lleoli tryc bwyd gyda chyfleusterau toiledau cyhoeddus a llecynnau picnic. Cadw llain galed ar gyfer parcio ceir a llwybr mynediad. Adeiladu 20 o siediau rhandir.**

a) Amlygodd y Rheolwr Cynllunio mai cais ydoedd ar gyfer codi 20 sied gardd ar gyfer rhandiroedd, lleoli tryc bwyd gyda chyfleusterau toiledau cyhoeddus a llecynnau picnic, cadw llain galed ar gyfer parcio ceir a hwyluso mynediad cerbydol. Er bod y siediau angen hawl cynllunio, nid oedd bellach angen hawl i gynllunio ar gyfer creu rhandiroedd.

Ystyriwyd bod egwyddor y bwriad yn dderbyniol yn nhermau polisi ISA 2 oherwydd bod y safle yn ffinio gyda ffin datblygu Penrhyndeudraeth a bod y datblygiad yn hawdd ei gyrraedd ar droed, beic a chludiant cyhoeddus. Ategwyd bod yr egwyddor yn dderbyniol o ystyried polisi MAN 6 sydd yn cefnogi datblygiad manwerthu ar raddfa fach yng nghefn gwlad a pholisi MAN 7 sydd yn berthnasol i ddefnyddiau bwyd poeth i gario allan.

Er yn cydnabod byddai rhywfaint o effaith gweledol, ni ystyriwyd y byddai cael siediau ar randiroedd yn rhywbeth annisgwyl ac oherwydd ei maint a'i lleoliad ynghyd a llystyfiant naturiol o amgylch y safle, ni ystyriwyd y byddai'r bwriad yn niweidiol i edrychiad y safle nac yn amharu ar fwynderau gweledol yr ardal.

Nodwyd bod dyluniad y toiled yn cyd-fynd gyda'r siediau ac yn caniatáu mynediad hygyrch; Byddai modd sicrhau ansawdd i'r edrychiad trwy osod amodau er mwyn sicrhau bod lliw'r siediau a'r toiled yn cydweddu a'i gilydd.

Er bod y safle wedi ei leoli mewn lleoliad cynaliadwy gyda phalmant yn gwasanaethu'r safle, derbyniwyd y bydd defnyddwyr y rhandiroedd angen defnyddio cerbyd ar adegau i gludo nwyddau ac offer garddio, ond wrth bwyso a mesur unrhyw effeithiau gweledol, a'r ffaith bod defnydd tir fel rhandir yn ddatblygiad a ganiateir, ystyriwyd y byddai rhywfaint o effaith gweledol bychan yn deillio o'r maes parcio yn well na cherbydau yn parcio ar y palmant ac yn creu problemau diogelwch ffordd. O ganlyniad, ystyriwyd fod y trefniadau parcio a mynediad yn dderbyniol.

Yng nghyd-destun gosod tryc bwyd, sydd yn gerbyd yn hytrach nag adeilad, ystyriwyd y bydd yn cael ei weld yng nghyd-destun cerbydau eraill sydd wedi parcio ar y safle. I gyfyngu'r effaith gweledol, priodol fyddai gosod amod i sicrhau fod y tryc yn cael ei osod ar y safle pan fydd mewn defnydd yn unig ac y bydd angen ei symud oddi ar y safle pob nos.

Wrth ystyried mwynderau preswyl, eglurwyd bod y safle wedi ei leoli mewn ardal ar gyrion y dref, gyda thai preswyl gerllaw, gyda'r tŷ agosaf oddeutu 20m i ffwrdd o'r rhandiroedd. O ystyried natur defnydd rhandir, mae'n annhebygol y byddai'r bwriad o osod siediau yn amharu ar unrhyw fwynderau preswyl. Ategwyd bod defnyddiau amrywiol eraill gerllaw megis gorsaf rheilffordd ag unedau diwydiannol/masnachol ac felly nid yw'r ardal yn cael ei hystyried fel un anheddol yn unig.

Tynnwyd sylw at y pryderon a dderbyniwyd  mewn ymateb i'r cyfnod ymgynghori, ac ni ystyriwyd y byddai'r datblygiad yn denu ymddygiad anghymdeithasol i'r safle gan ei fod yn safle eithaf agored gyda gwyliadwriaeth naturiol oherwydd ei leoliad ger y ffordd gyhoeddus gerllaw. Er hynny, derbyniwyd y gall materion sy'n gysylltiedig gyda'r tryc bwyd gael effaith ar fwynderau preswyl yn sgil sŵn ac arogleuon ac felly mewn ymateb, bydd y tryc i'w osod ger y maes parcio sydd oddeutu 150m i ffwrdd o'r tŷ preswyl agosaf  - bydd hyn yn lliniaru rhan fwyaf o'r effeithiau. Ategwyd mai priodol fyddai  gosod amod i gyfyngu'r oriau agor ynghyd ag amod i gytuno ar gynllun rheoli gwastraff i sicrhau difa pla effeithiol, gwarchod yr amgylchedd ac edrychiad yr ardal.

Yng nghyd-destun materion llifogydd ac o ystyried bod y safle mewn parth llifogydd, nid oedd gan CNC unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad a cadarnhawyd ei fod yn cydymffurfio gyda TAN 15. Er hynny roedd CNC wedi amlygu pryder fod y tir wedi ei halogi o gofio defnydd hanesyddol gwaith Cookes gerllaw, ond trwy osod amodau i gynnal archwiliad tir manwl, ystyriwyd y byddai'r bwriad, yn unol â gofynion polisi PCYFF 2 yn gofyn sicrhau gwarchod iechyd a diogelwch.

Roedd y swyddogion yn argymell caniatáu y cais

b) Yn manteisio ar yr hawl ar yr hawl i siarad, nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol;
- Ei bod yn gefnogol i'r cais
- Bod y bwriad yn ymateb i'r angen
- Bod y bwriad yn dda i'r gymuned
- Bydd yr ardal yn cael ei barchu

c) Cynigwyd ac eiliwyd caniatáu y cais

**PENDERFYNWYD Caniatáu yn unol â'r amodau canlynol:**

**1 -  Amser**
**2 -  Yn unol gyda'r cynlluniau**
**3 -  Amodau tir halogedig**
**4 – Amodau bioamrywiaeth gan gynnwys sicrhau gwelliannau**
**5 – Tryc bwyd ond i osod ar y safle pan mae o mewn defnydd.**
**6 -  Cyfyngu oriau agor y tryc bwyd i 8-7 pob diwrnod.**
**7 - Cytuno ar fanylion rheoli gwastraff i'r tryc bwyd.**
**8 - Arwyddion Cymraeg**

**5.8 CAIS RHIF C24/0922/14/LL**
**Plot C6, Ystâd Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BD**

**Cais llawn ar gyfer creu 'depot' yn cynnwys swyddfeydd, gweithdy, adeiladau ar gyfer storio ynghyd a gwaith cysylltiol.**

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr

d) Amlygodd Arweinydd Tîm Rheolaeth Datblygu bod y safle wedi ei leoli o fewn ffin datblygu Caernarfon a'r cyfan o fewn ardal sydd wedi ei warchod fel prif safle cyflogaeth ar gyfer defnydd cyflogaeth. Ategwyd bod y safle yn cael ei wasanaethu gan ffordd sirol ddi-ddosbarth sy'n arwain drwy'r stad a'r bwriad yn cynnwys darpariaeth ar gyfer 44 o lefydd parcio ceir (yn

cynnwys 3 ar gyfer yr anabl), 10 ar gyfer loriau ac 8 ar gyfer peiriannau eraill yn ogystal â gofod cadw beiciau.

Gyda'r safle wedi ei leoli o fewn ffin ddatblygu Caernarfon ac ardal sydd wedi ei warchod ar gyfer cyflogaeth ac yn benodol defnyddiau diwydiannol B1, B2 a B8, roedd egwyddor y bwriad yn dderbyniol o safbwynt polisïau PCYFF 1 a CYF 1. Dsigrifiwyd y tir yn weddol wastad ac yn cefnu ar weddill y stâd sydd ar lefel sylweddol uwch i'r gogledd. Cydnabuwyd y byddai'r unedau unllawr a deulawr yn weladwy o ffordd osgoi Caernarfon, ac yn ychwanegu at strwythurau ac ardaloedd storio offer yn y tirlun. Er hynny, byddai'r stâd bresennol yn ffurfio cefndir i'r safle ac, felly yn lleihau effaith y bwriad ar y tirlun. Cyfeiriwyd at gynllun safle a chynllun trawstoriad oedd yn amlygu bwriad i weithredu cynllun tirlunio ar gyfer terfyn deheuol, gorllewinol a gogleddol y safle fydd yn cynnwys cadw coed ar hyd y terfyn deheuol. O ganlyniad ni ystyriwyd y byddai'r bwriad yn cael effaith weledol annerbyniol.

Yng nghyd-destun materion cyffredinol a phreswyl nodwyd bod yr adeilad bwriedig mwyaf i'w leoli ym mhen gorllewinol y safle, oddeutu17 medr o'r terfyn a tua 28 medr o edrychiad cefn tai cymdogion agosaf. Amlygwyd bod bwriad gosod deunydd ynysu ychwanegol ar wal gefn yr adeilad er mwyn lleihau unrhyw sŵn a fyddai yn deillio ohono. Adroddwyd bod y datganiad cynllunio yn nodi mai sied gynnal a fwriedir yma ac ni ddisgwylid bod sŵn yn tarddu ohoni; nid oes ffenestri na drysau ar yr edrychiad cefn a byddai'r adeilad hefyd yn lliniaru sŵn sy'n deillio o lefydd arall ar y safle. Ystyriwyd felly bod potensial i ychwanegu at y mesurau lliniaru sŵn drwy osod amodau priodol i leihau effaith andwyol ar drigolion cyfagos.

Cyfeiriwyd at faterion priffyrdd, bioamrywiaeth, ac ieithyddol oedd wedi derbyn sylw priodol.

Roedd y swyddogion yn argymell caniatáu y cais

e) Yn manteisio ar yr hawl ar yr hawl i siarad, nododd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol;

- Y safle wedi ei leoli ar ddarn o dir sydd wedi ei ddynodi ar gyfer datblygu
- Bod y cwmni angen cynyddu eu gweithdy presennol yn yr ardal
- Defnydd arfaethedig a manteision economaidd. Yn dilyn cynnydd yn y busnes, yn ymateb drwy geisio cyfuno pum depo rhanbarthol i ganoli adnoddau fydd yn creu cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol yn yr ardal
- Bod y safle yma yn ddelfrydol o ran manteision strategol a logistaidd
- Yn agos at rwydwaith ffyrdd i Ganolbarth Cymru fydd yn lleihau amseroedd teithio
- Yn rhagweld cynnydd mewn niferodd staff llawn amser i 36%
- Bod cyflog net blynyddol yn cyfateb i £1.4 miliwn sydd yn cael ei wario yn bennaf yng Ngwynedd
- Byddai'r bwriad yn cynnig swyddfa bwrpasol ar gyfer staff ynghyd a gweithdy masnachol ar gyfer cynnal a chadw cerbydau, uned arwyddion rheoli traffig a chyfleuster storio ar gyfer system codi a systemau hydrolig
- Bydd y prosiect yn ffynhonnell datblygu economaidd lleol, cynaliadwy fydd yn creu cyfleoedd swyddi newydd ac yn darparu masnach gyda chyflenwyr busnes lleol eraill yn yr ardal
- Bod ffyrdd mynediad eisoes wedi ei ffurfio gyda bwriad o ddefnyddio seilwaith presennol
- Bod llythyrau cefnogaeth wedi eu derbyn
- Dim gwrthwynebiadau wedi ei dderbyn

f) Cynigwyd ac eiliwyd caniatáu y cais

g) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod y cwmni yn un llwyddiannus iawn gydag enw da
- Bod y Cyngor Tref yn gefnogol i'r cais
- Bod y cwmni angen lle ychwanegol
- Bod angen iddynt ystyried gwefan ddwyieithog

**PENDERFYNWYD: CANIATÁU yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:**

**1. 5 mlynedd.**
**2. Unol a chynlluniau a dogfennau.**
**3. Cytuno cynllun a mesurau atal sŵn y gweithdy ym mhen gorllewinol y safle. Gallai hyn gynnwys mesurau fel insiwleiddio, cytuno ar leoliad unrhyw sustemau echdynnu, oriau defnydd a ffens acwstig.**
**4. Sicrhau defnydd o arwyddion dwyieithog sy'n rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg.**
**5. Tirlunio.**
**6. Cynnal tirlunio.**
**7. Angen cytuno ar unrhyw sustemau echdynnu ar y gweithdy cyn gosod ar yr adeilad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 13.00 a daeth i ben am 14:35

CADEIRYDD